# CYNGOR SIR FYNWY

# Grant Cynnal Tai

# CYFEIRIADUR GWASANAETH

| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| Beth yw Grant Cymorth Tai? | 3 |
| Beth yw Cymorth sy'n Ymwneud â Thai? | 3 |
| Pwy all gael mynediad i Wasanaethau Cymorth Tai? | 4 |
| Sut i gael mynediad at y Gwasanaethau Cymorth Tai | 5 |
| Gwasanaethau Cam-drin Domestig | 7 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 10 |
| Gwasanaethau Pobl Ifanc | 12 |
| Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd | 13 |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | 14 |
| Gwasanaethau Ffoaduriaid | 14 |
| Gwasanaethau Generig | 15 |
| Gwasanaethau Rhanbarthol | 17 |
| Cysylltiadau Grant Cymorth Tai | 18 |

## Beth yw Grant Cymorth Tai?

Diben craidd y **Grant Cymorth Tai** yw atal digartrefedd a chefnogi pobl i gael y gallu, annibyniaeth, sgiliau a hyder i gael a/neu gynnal cartref sefydlog ac addas.

Mae tai yn faes blaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru, sy’n nodi’r weledigaeth *“Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy’n diwallu eu hanghenion ac sy’n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus”.*

## Beth yw Cymorth Sy’n Ymwneud â Thai?

Mae **Grant Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy** yn cefnogi’r nod o weithio gyda’n gilydd i atal digartrefedd a lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr a heb ei ailadrodd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni fynd i'r afael â gwraidd digartrefedd a gweithio i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

Mae cymorth sy'n ymwneud â thai yn ceisio galluogi pobl sy'n agored i niwed i gynnal a chynyddu eu hannibyniaeth a'u gallu i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Dyma rai enghreifftiau o gymorth sy’n ymwneud â thai:

- Cyngor ar gyllidebu/rheoli arian
- Helpu i gael cyngor ar fudd-daliadau a grantiau
- Cefnogaeth gyda chynhwysiant cymdeithasol
- Helpu i ddatblygu sgiliau byw bob dydd
- Cymorth a chyngor gyda phroblemau tai
- Help i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd eraill e.e. iechyd, tai, cyflogaeth ac addysg

**NID** yw’r Grant Cymorth Tai yn ariannu gwasanaethau gofal personol (e.e. cymorth i ymolchi, gwisgo, annog/cymryd meddyginiaeth) neu weithgareddau rheoli tai (e.e. ôl-ddyledion rhent, problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol).

## Pwy all gael mynediad i Wasanaethau Grant Cymorth Tai?

Mae gwasanaethau **Grant Cymorth Tai** ar gyfer unrhyw berson 16+ sydd angen cymorth sydd yn ymwneud â thai i'w helpu i gynnal/cynnal eu cartref a byw'n annibynnol yn y gymuned.

Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael yn Sir Fynwy sy'n cefnogi'r canlynol:

- Gwasanaethau Larwm (gan gynnwys gofal gwarchodol/ychwanegol)
- Teuluoedd ag Anghenion Cymorth
- Cefnogaeth Generig / Fel y Bo'r Angen / Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cwmpasu ystod o anghenion defnyddwyr)
- Dynion sy'n profi Cam-drin Domestig
- Pobl dros 55 oed ag Anghenion Cymorth (ac eithrio gwasanaethau larwm)
- Pobl â Salwch Cronig (gan gynnwys HIV, Aids)
- Pobl â Hanes o Droseddu
- Pobl ag Anhwylderau Datblygiadol (h.y. Awtistiaeth)
- Pobl ag Anableddau Dysgu
- Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl ag Anableddau Corfforol a/neu Synhwyraidd
- Pobl â Statws Ffoaduriaid
- Pobl â Phroblemau Alcohol
- Pobl â Phroblemau Camddefnyddio Sylweddau
- Teuluoedd Rhiant Sengl ag Anghenion Cymorth
- Pobl Sengl ag Anghenion Cymorth nas rhestrir uchod (25 i 54)
- Merched sy'n profi Cam-drin Domestig
- Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal
- Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16 i 24 oed)
- Du a Lleiafrifoedd Ethnig
- Sipsiwn a Theithwyr
- Pobl eiddil / agored i niwed
- Teuluoedd gyda Dau Riant Bregus
- Gweithwyr Mudol

## Sut i gael mynediad at Wasanaethau Grant Cymorth Tai?

Mae’r Tîm Cymorth Tai yn darparu ‘Gwasanaeth Porth’, sy’n gweithredu fel llwybr atgyfeirio i wasanaethau cymorth. Bydd y Porth yn cynnal gwerthusiad o anghenion ac yn ceisio paru cleientiaid â'r gwasanaeth mwyaf addas sydd ar gael iddynt.

Cysylltwch â’r Tîm Porth os ydych chi neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod angen cymorth sy'n ymwneud â thai.

**Tîm Cymorth Tai (Y Porth)**
Gwasanaethau Cymorth Tai
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

**Sylwch mai dim ond trwy'r Porth y gellir cael mynediad at rai o'r gwasanaethau a restrir; lle bo'n berthnasol, felly dim ond manylion cyswllt y Porth sydd wedi'u rhestru.**

## Tîm Opsiynau Tai

Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn cynnig cyngor a chymorth i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd neu sydd angen tŷ. Bydd y Tîm yn trafod yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn helpu unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am eu camau nesaf.

Prif ffocws y Tîm Opsiynau Tai yw atal digartrefedd, ac mae nifer o opsiynau ar gael i Gyngor Sir Fynwy a allai gynorthwyo unigolion i aros gartref neu ystyried llety arall.

Mae modd cysylltu’n uniongyrchol â’r Tîm: 01633 644 644

Fel arall, mae modd cysylltu drwy'r Siopau Un Stop

## Siop Un Stop a Hybiau Cymunedol Cyngor Sir Fynwy

Gellir gwneud atgyfeiriadau os bydd pobl yn mynychu unrhyw un o'r Siopau Un Stop neu Hybiau Cymunedol.

Mewn rhai Hybiau Cymunedol, mae cymorthfeydd ar gyfer pobl sydd angen gwybodaeth neu gefnogaeth ynghylch cymorth sy'n ymwneud â thai.

Cyfeiriadau Siop Un Stop/Hwb Cymunedol:

Hyb y Fenni
Neuadd y Farchnad
Stryd Cross
Y Fenni
NP7 5HD
Ffôn: 01873 735800

Hyb Cymunedol Cil-y-coed
Ffordd Woodstock
Cil-y-coed NP26 5DB
Ffôn: 01291 426400

Hyb Cymunedol Cas-gwent
Llyfrgell Cas-gwent
Manor Way
Cas-gwent
NP16 5HZ
Ffôn: 01291 635700

Hyb Cymunedol Trefynwy
Llyfrgell Trefynwy
Rolls Hall
Trefynwy
NP25 3BY
Ffôn: 01600 775200

Hyb Cymunedol Brynbuga
Llyfrgell Hyb Cymunedol
35 Stryd Maryport
Brynbuga
NP15 1AE
Ffôn: 01291 426888

# GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

## Prosiect CRISIS Cyfannol

Os ydych yn ffoi rhag cam-drin domestig ac angen cymorth brys, cysylltwch â'r canlynol am gyngor a chymorth:

Mae'r MAC (Canolfan Aml-Asiantaeth) – Cymorth i Fenywod Cyfannol wedi'u lleoli yn y MAC a gallant gynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth.

Ffôn: 01873 859011

Fel arall, galwch heibio am gyngor: 26A Monk Street, Y Fenni. NP7 5NP

Llinell Gymorth 24 Awr: 01495 742052

Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hefyd drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## MODAS

Mae Sir Fynwy yn cynnig gwasanaeth allgymorth cam-drin domestig sy'n addas i fenywod a dynion. Gelwir y gwasanaeth yn MODAS (Gwasanaeth Cam-drin Domestig Allgymorth Sir Fynwy neu Monmouthshire Outreach Domestic Abuse Service) a mae modd cael mynediad at y gwasanaeth drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## Lloches

Os ydych yn ffoi rhag cam-drin domestig ac angen llety brys, cysylltwch â'r canlynol am gyngor a chymorth:

Mae'r MAC (Canolfan Aml-Asiantaeth) – Cymorth i Fenywod Cyfannol wedi'u lleoli yn y MAC a gallant gynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth. Gallant hefyd gynorthwyo gydag atgyfeiriad i loches.

Ffôn: 01873 859011

Fel arall, galwch heibio am gyngor: 26A Monk Street, Y Fenni. NP7 5NP

Llinell Gymorth 24 Awr: 01495 742052

## Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan

Os ydych chi'n profi cam-drin domestig neu drais rhywiol, wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu'n poeni am ffrind neu berthynas sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol, ffoniwch Linell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan sydd yn rhad am ddim. Mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Ffôn: 0808 80 10 800

## Pecyn Cymorth Adferiad

Mae'r Pecyn Cymorth Adfer ar gyfer unrhyw fenyw sydd wedi dioddef cam-drin domestig ac nad yw bellach mewn cysylltiad â'r unigolyn a oedd yn ei herlid neu mae'r sawl sydd wedi ei herlid ar raglen gydnabyddedig.

Yn ystod y rhaglen 12 wythnos hon, byddwch yn dod i wybod am effeithiau cam-drin. Bob wythnos byddwch yn dysgu technegau i herio meddyliau negyddol i adeiladu perthynas gadarnhaol, iach mewn bywyd newydd heb gamdriniaeth.

https://cyfannol.org.uk/our-services/recovery-toolkit/

Ffôn: 01873 859011

Fel arall, galwch heibio am gyngor: 26A Monk Street, Y Fenni. NP7 5NP

Llinell Gymorth 24 Awr: 01495 742052

## Yn Berchen ar Fy Mywyd (Own My Life)

Mae'r cwrs Own My Life yn rhaglen gwaith grŵp 12 wythnos sydd wedi'i dylunio i alluogi menywod i adennill perchnogaeth o'u bywydau ar ôl cael eu cam-drin. Mae'r cwrs yn helpu menywod i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi'i wneud iddynt, darganfod eu cryfderau a datblygu'r sgiliau i symud ymlaen. Mae Cymorth i Ferched Cyfannol yn creu man diogel i fenywod gwrdd â'i gilydd i gwblhau'r cwrs. https://cyfannol.org.uk/our-services/own-my-life/

Ffôn: 01873 859011

Fel arall, galwch heibio am gyngor: 26A Monk Street, Y Fenni. NP7 5NP

Llinell Gymorth 24 Awr: 01495 742052

## Gwella Diogelwch

Mae Gofal a Thrwsio (Care & Repair) yn darparu gwasanaeth i osod offer i wella diogelwch ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan bob math o gam-drin domestig.

Ffôn: 01495 745936

E-bost: referrals@crmon.org.uk

# GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL

## Tenantiaeth a Byw â Chymorth (TASL - Tenancy and Supported Living)

Mae Sir Fynwy yn cynnig gwasanaeth cymorth fel bo'r angen i'r rhai sydd angen cyngor mewn meysydd sy'n ymwneud â thai ac iechyd meddwl. Darperir y gwasanaeth gan MIND Sir Fynwy a'i enw yw TASL (Tenantiaeth a Byw â Chymorth). Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## Hawliau Lles

Mae Hawliau Lles yn cynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl gyda phob agwedd o fudd-daliadau lles. Mae'r gwasanaeth sefydledig yn gyflym, am ddim, ac yn gyfrinachol, ac yn gweithio gyda'r cleient ar lenwi ffurflenni. Mae'r prosiect Hawliau Lles yn darparu arbenigedd a dogfennaeth ar gyfer Adolygiadau Gorfodol ac ar gyfer apeliadau i Dribiwnlys. Mae Hawliau Lles yn sicrhau bod y cleient yn cael y budd-daliadau cywir ar y lefel gywir. Rydym yn cynnig apwyntiadau yn y Fenni, Cas-gwent, Cil-y-coed a Threfynwy.

Cyswllt: Mind Sir Fynwy 01873 858275

NEU

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## Prosiect Ffermwyr a Theuluoedd

Mae'r prosiect Ffermwyr a Theuluoedd yn gweithio o fewn pentrefi ac ardaloedd mwy gwledig Sir Fynwy i gefnogi'r rhai yn y diwydiant ffermio i gynnal eu tenantiaeth/llety.

Mae'r prosiect yn gweithredu fel pont rhwng gwasanaethau a chleientiaid i feithrin sgiliau a chysylltiadau, i alluogi pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac sy'n byw gydag iechyd meddwl i gael mynediad at y gwasanaethau hyn mewn ffordd ystyrlon. Mae'r prosiect yn helpu pobl i gael mynediad at gymorth cymdeithasol a chael eu cynnwys yn gymdeithasol a bod yn wydn, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig ac ardaloedd o boblogaeth isel. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## GWASANAETHAU POBL IFANC (16-24)

### Llety â Chymorth i Bobl Ifanc

Os ydych rhwng 16 a 24 oed ac yn ddigartref neu'n ddigartref o bosibl, efallai y bydd y Tîm Opsiynau Tai yn gallu cynnig llety dros dro yn un o hosteli'r bobl ifanc yn y Fenni neu Gas-gwent. Ni ellir cael mynediad uniongyrchol at y rhain.

Mae manylion cyswllt y Tîm Opsiynau Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 644644

NEU

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

### MOYO (Allgymorth Ieuenctid Sir Fynwy - Monmouthshire Youth Outreach)

Mae MOYO yn wasanaeth cymorth fel y bo'r angen sy'n anelu at ddarparu cymorth i bobl ifanc 'nad ydynt yn ymgysylltu' ac sy'n NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant)/digartref neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET/digartref. Y grŵp targed ar gyfer y gwasanaeth hwn yw pobl ifanc 16 – 24 oed. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

# GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD

## Prosiect Ymyrraeth ac Atal Teuluol

Mae'r Prosiect Ymyrraeth ac Atal Teuluol (FIPP) wedi'i gynllunio i weithio gyda theuluoedd sy'n wynebu cael eu troi allan neu gamau gorfodi eraill oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu ymagwedd teulu cyfan ac yn cyfuno cymorth dwys i wynebu a newid ymddygiad. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## Cyfryngu Teuluol

Mae Llamau yn cynnig cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd gyda'r bwriad o helpu teuluoedd i gyfathrebu'n well ac aros gyda'i gilydd. Mae'r gwasanaeth yn hyblyg, yn croesawu hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau trwy sefydliadau trydydd parti, megis ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer 14+ oed.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

# GWASANAETHAU AR GYFER 55 OED A'N HŶN

## Iach yn Eich Cartref (60 oed a'n hŷn)

Mae'r Prosiect Iach Gartref yn darparu gwasanaeth i gyrraedd pobl na sy'n weithgar yn gymdeithasol a/neu wedi'u hynysu, yn ogystal â chynorthwyo gydag atal ysbytai a byw'n annibynnol yn gynaliadwy. Rhoddir cymorth i gleientiaid i gael yr incwm mwyaf posibl, grantiau a Gwiriad Cartref Iach ar gyfer gwaith/gwasanaethau ychwanegol i gynnal eu hunain i fyw'n annibynnol. Nod y gwasanaeth yw cyflawni gwelliannau mewn diogelwch, diogeledd, cysur ac annibyniaeth sy'n arwain at fwy o iechyd a lles i bobl hŷn.

Ffôn: 01495 745936

E-bost: referrals@crmon.org.uk

# GWASANAETHAU FFOADURIAID

## Cefnogaeth Wcráin

Mae Tîm Cymorth Tai Sir Fynwy yn darparu gwasanaeth pwrpasol mewn perthynas ag unigolion Wcreineg sy'n ffoi o'r rhyfel yn yr Wcráin sydd angen cyngor a chefnogaeth ar ôl cyrraedd Sir Fynwy. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

Neu

Mae manylion cyswllt Tîm Ymateb Wcráin fel a ganlyn:

E-bost: ukrainesupport@monmouthshire.gov.uk

## GWASANAETHAU GENERIG

Mae cymorth generig fel y bo'r angen ar gael i unrhyw un dros 16 oed a fyddai'n elwa o gymorth sy'n ymwneud â thai (fel y disgrifir ar dudalen 3).

Mae cymorth generig fel y bo'r angen hefyd yn ceisio atal digartrefedd a mynd i'r afael â thenantiaethau sy'n torri ac mae ar gyfer unrhyw un o'r bobl sy'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau a restrir ar dudalen 4.

### Porth Sir Fynwy ac Atal Lefel Isel

Mae'r Porth yn gweithredu fel gwasanaeth brysbennu sy'n gwerthuso'r holl atgyfeiriadau a dderbynnir. Ar ôl gwerthuso, bydd y Gwasanaeth Atal Lefel Isel yn cefnogi unrhyw berson sy'n agored i niwed ac yn delio gyda materion sy'n ymwneud â thai ac mewn argyfwng.

### Credyd Cynhwysol Sir Fynwy

Mae Tîm Cymorth Tai Sir Fynwy yn darparu gwasanaeth pwrpasol mewn perthynas â phobl sydd angen cyngor a chefnogaeth i ddelio â materion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol ar draws Sir Fynwy.

### Cefnogaeth Tenantiaeth POBL; Cymorth Tenantiaeth Llamau

Mae POBL a Llamau yn darparu cymorth i bobl agored i niwed dros 16 oed ledled Sir Fynwy gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â thai.

### Prosiectau Tai a Lles

Mae POBL, Llamau a MHA yn darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thenantiaeth a/neu dai i ddefnyddwyr gwasanaeth y byddai eu lles yn cael ei wella o ganlyniad i wella eu hanghenion tai. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i unigolion agored i niwed a’u teuluoedd yn Sir Fynwy, ac yn cynnal cymorthfeydd yn Nhrefynwy, Y Fenni, Brynbuga, Cil-y-coed a Chas-gwent.

## Tai yn Gyntaf (Housing First)

Mae tîm Tai yn Gyntaf POBL yn helpu pobl sy'n profi digartrefedd i symud i lety dros dro a pharhaol tra'n darparu cymorth cofleidiol penagored.

## Tîm Allgymorth Pendant

Mae Llamau yn darparu cymorth allgymorth i unigolion sy'n cysgu allan, syrffio soffa neu mewn llety dros dro.

## Gwasanaeth Ailsefydlu Llety Dros Dro

Mae POBL yn cynnig gwasanaeth cefnogaeth fel y bo'r angen i unigolion a leolir mewn Llety Dros Dro gan y Tîm Opsiynau Tai i ddod o hyd i lety parhaol tra hefyd yn cefnogi unigolion i reoli eu hincwm a'i gwariant, gan sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd priodol a chefnogaeth i gynnal neu gyflawni lefel uchel o les.

## Cysylltwch â'r Tîm Cymorth Tai ar gyfer yr holl brosiectau uchod:

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

## Camddefnyddio Sylweddau/Allgymorth Pendant

Mae GDAS yn cynnig gwasanaeth allgymorth i unigolion ag anghenion cymorth tai sy'n profi problemau camddefnyddio sylweddau. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

# GWASANAETHAU RHANBARTHOL

## Troseddu

Mae Wallich yn cynnig gwasanaeth cefnogaeth fel y bo’r angen i droseddwyr cyson a throseddwyr â blaenoriaeth. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar adsefydlu a'i nod yw helpu pobl i newid ymddygiad yn y tymor hir. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Dîm Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cymorth Tai fel a ganlyn:

Ffôn: 01633 740730

Ebost: housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk

# CYSYLLTIADAU AR GYFER GRANT CYMORTH TAI

**Trudy Griffin**
Rheolwr Comisiynu a Gweithrediadau Cymorth Tai

E-bost: trudygriffin@monmouthshire.gov.uk

Ffôn: 07872 696489 / 01633 740727

**Michael McGrath**
Swyddog Comisiynu a Chontractau Cymorth Tai

E-bost: mikemcgrath@monmouthshire.gov.uk

Telephone: 07967 275855 / 01633 644398

**Jane Kirby**
Swyddog Comisiynu ac Adolygu Cymorth Tai

E-bost: janekirby@monmouthshire.gov.uk

Ffôn: 07890 062811

**Cyfeiriad Cyswllt**

Grant Cymorth Tai

Menter

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA